

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

- 1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin
- 2 Dod i rym
- 3 Enw byr

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin

- (1) Mae amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin wedi ei ddiddymu mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.
- (2) Yn unol â hynny, ni chaniateir cyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr â chosb resymol.
- (3) Ni chaniateir ychwaith gyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr ag ymddygiad derbyniol at ddibenion unrhyw reol arall yn y gyfraith gyffredin.
- (4) At ddibenion yr adran hon, ystyr "cosb gorfforol" yw unrhyw guro (yn yr ystyr sydd i "battery" yn y gyfraith gyffredin) a wneir fel cosb.
- (5) Yn adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) (cosb resymol)–
 - (a) yn is-adran (1), ar ôl "battery of a child" mewnosoder "taking place in England",
 - (b) yn is-adran (3), ar ôl "Battery of a child" mewnosoder "taking place in England", ac
 - (c) mae'r pennawd yn newid i "Reasonable punishment: England".

2 Dod i rym

- (1) Daw'r adran hon ac adran 3 i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
- (2) Daw adran 1 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.

3 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2019.